# Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio

## Disgrifiad o'r Swydd

**1 Atebolrwydd**

- I'r Cyngor Llawn
- I aelodau'r pwyllgor rheoleiddio

**2 Diben y Swydd a'r Gweithgareddau**

- **Cynnig arweinyddiaeth a chyfeiriad**

  - Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau eglur
  - Sicrhau bod ymgeiswyr a phartïon â diddordeb eraill yn fodlon ar dryloywder y broses reoleiddio
  - Arddangos gonestrwydd a di-dueddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n unol â'r gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi
  - Dirprwyo camau i is-bwyllgorau fel sy'n briodol

- **Hyrwyddo rôl y pwyllgor rheoleiddio a phenderfyniadau lled-farnwrol**

  - Gweithredu fel llysgennad ar gyfer y pwyllgor rheoleiddio, gan hwyluso dealltwriaeth am y swydd
  - Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chywir
  - Sicrhau manylder a gwrthrychedd yn y pwyllgor, gan dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd ac mewn achosion/ceisiadau unigol cyn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a phartneriaethau**

  - Datblygu enw da a gonestrwydd y pwyllgor a'i benderfyniadau
  - Deall swyddi aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor
  - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da'r Cyngor a'i waith

## 3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol yn gyhoeddus:

- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol
- Adeiladu consensws